Office for Nuclear Regulation

Addasiadau i Drefniadau Amod Trwydded 13 Magnox

Cymeradwyaeth yr ONR ar gyfer Newid neu Addasiad i Drefniadau Fflyd Magnox dan Amod Trwyddedu 13(3) ac 13(12).

Adroddiad Asesiad Prosiect ONR-DFW-PAR-15-027
Adolygiad 0
EBRILL 2016

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015
Os ydych yn dymuno ailddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Cyhoeddwyd 05/16

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Addasiadau i Drefniadau Amod Trwydded 13 Magnox

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ystyriaeth yr Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) o gynigion Magnox Limited i addasu trefniadau Amod Trwyddedu 13 ar draws ei fflyd o 12 gosodiad niwclear trwyddedig.

Cais am Ganiatâd

Mae Magnox Limited wedi gofyn i'r ONR 'gymeradwyo' trefniadau Amod Trwydded (LC) 13 wedi eu newid neu addas ar draws ei fflyd o 12 safle trwyddedig.

Cefndir

Mae'r ONR wedi cymeradwyo'r trefniadau LC 13 presennol yn gysylltiedig â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Diogelwch Niwclear a Chynigion Diogelwch Brys ar draws fflyd Magnox. Mae Magnox nawr eisiau newid neu addasu'r trefniadau hyn ac felly mae asesu trefniadau newydd a'u cymeradwyo gan yr ONR (a thynnu cymeradwyaeth flaenorol yn ôl).

Gwaith asesu ac archwilio a gyflawnwyd gan yr ONR wrth ystyried y cais hwn

Mae'r ONR wedi gwirio bod y trefniadau arfaethedig hyn wedi derbyn ystyriaeth ddigonol gan bwyllgorau diogelwch niwclear y trwyddedai a'u bod yn bodloni meini prawf canllaw yr ONR. Mae'r ONR wedi cadarnhau union natur y newidiadau rhwng trefniadau sydd wedi eu cymeradwyo ar hyn o bryd a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer pob un o'r safleoedd trwyddedig.

Materion yn codi o waith yr ONR

Mae'r rhan fwyaf o'r newid yn ymwneud â gwaith cadw tŷ. Dim ond addasiadau Harwell a Winfrith sy'n arwyddocaol gan bod y trefniadau wedi eu hailfformatio i fod yn gyson gyda model safonol Magnox Limited ar gyfer trefniadau Amod Trwyddedu 13, fodd bynnag, nid yw natur dechnegol y trefniadau wedi newid.

Casgliadau

Cesglir bod y newidiadau i drefniadau LC 13 arfaethedig yn bodloni canllaw'r ONR ac felly y dylid eu derbyn. Dylid rhoi'r gymeradwyaeth reoleiddiol a geisir ar gyfer y trefniadau newydd.

Argymhelliad

Dylai arweinydd yr ONR dderbyn yr adroddiad hwn ac felly ddangos ei fod yn derbyn yr argymhellion.

Dylai cyfarwyddwr y rhaglen lofnodi'r offerynnau trwydded drafft a fydd yn rhoi cymeradwyaeth yr ONR ar gyfer yr addasiadau a geisir i drefniadau Niwclear a Chynigion Diogelwch Brys, yn safleoedd trwyddedig Magnox Limited.

RHESTR BYRFODDAU

HOW2	System Rheoli Busnes (Y Swyddfa dros Reoli Niwclear)
HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
LC	Amod Trwyddedu
LC	Offeryn Trwyddedu
ONR	Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
NSC	Pwyllgor Diogelwch Niwclear
TAG	Canllaw Asesiad Technegol (ONR)
TIG	Canllaw Archwiliad Technegol (ONR)
ToR	Cylch Gorchwyl

TABL CYNNWYS

1 CAIS AM GANIATÂD 6
2 CEFNDIR 6
3 GWAITH ASESU A GYFLAWNWYD GAN YR ONR WRTH YSTYRIED Y CAIS HWN 6
4 MATERION YN CODI O WAITH YR ONR 7
5 CASGLIADAU 8
6 ARGYMHELLION 8
7 CYFEIRIADAU 9

Tablau

Tabl 1: Trefniadau LC 13(2)
Tabl 2: Trefniadau LC 13(11)

1 CAIS AM GANIATÂD

1. Mae'r Trwyddedai wedi gofyn am 'gymeradwyaeth' y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) o drefniadau amod trwyddedu newydd (LC), dan Amod Trwyddedu 13(3) ac 13(12), parthed (i) Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Diogelwch Niwclear a (ii) Chynigion Diogelwch Brys yn y drefn honno (Cyf 1). Cafwyd cais hefyd bod yr ONR yn tynnu yn ôl, yn unol ag LC 1(3)(a), y trefniadau a gymeradwywyd yn flaenorol a fydd yn cael eu disodli (Cyf 1).

2 CEFNDIR

2. Mae LC 13(1) yn gofyn i drwyddedai sefydlu pwyllgor diogelwch niwclear (NSC) i ystyried a chynghori ar faterion diogelwch. Mae LC 13(2) yn gofyn i drwyddedai gyflwyno Cylch Gwaith (ToR) i'r ONR ar gyfer Cymeradwyaeth i unrhyw NSC o'r fath. Dywed LC 13(3) na ddylai trwyddedai newid yr ToR yr NSC a gymeradwywyd nes bydd yr ONR wedi cymeradwyo newid neu addasiad a gynigiwyd. Yn ogystal, mae LC 13(11) yn caniatáu i'r trwyddedai gael ystyriaeth o, neu gyngor ar, gynigion diogelwch brys (a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried gan yr NSC) yn unol â threfniadau priodol sydd wedi eu hystyried gan yr NSC perthnasol a'u cymeradwyo gan yr ONR. Mae LC 13(12) yn caniatáu newid i drefniadau'r LC 13(11) os yw'r ONR yn cymeradwyo newidiadau neu addasiadau arfaethedig yn unig.

3. Mae gan bob un o'r 10 cyn safle adweithydd pŵer Magnox drefniadau unfath wedi eu cymeradwyo ar waith parthed y cylch gwaith ar gyfer pwyllgorau diogelwch niwclear am oddeutu pum mlynedd (gweler atodiadau i Gyf 1). Mae Harwell a Winfrith nawr wedi ymuno â fflyd Magnox ac mae ganddynt drefniadau LC 13(2) sydd wedi eu cymeradwyo sy'n wahanol i'r fformat a hyn a ddefnyddiwyd gan safleoedd adweithydd Magnox. O ganlyniad, mae'r cwmni wedi cynnig model newydd ar gyfer y trefniadau LC 13(2)/LC 13(3) a fydd yn berthnasol i'r 12 safle i gyd. Manteisiwyd ar y cyfer i wneud newidiadau amlwg i ToR yr NSCs, megis amnewid ‘Magnox North Limited’ gyda ‘Magnox Ltd’ a ‘Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)’ gydag ‘ONR’ gan fod enwau'r gweithredwr a'r rheolydd cyfrifol wedi newid ers sefydlu'r trefniadau cymeradwy cyfredol.

4. Yn yr un modd, mae Magnox Ltd yn cynnig cyflwyno model newydd ar gyfer trefniadau LC 13(11)/LC 13(12) sy'n delio gyda chynigion diogelwch brys ar draws y fflyd gyfan ar wahân i Oldbury a Wylfa (Cyf 1). Ychydig iawn o newid sydd i drefniadau safleoedd adweithydd Magnox, fodd bynnag, mae trefniadau Harwell a Winfrith wedi eu hailfformatio fel bod gan yr holl safleoedd yr un sylfaeni yn eu trefniadau cynigion diogelwch brys.

3 GWAITH ASESU A GYFLAWNWYD GAN YR ONR WRTH YSTYRIED Y CAIS HWN

5. Fe bennais bos y cynigion ToR NSC wedi eu sefydlu mewn papur (Cyf 2) a'u bod wedi eu hystyried yng nghyfarfod ar y cyd y safleoedd adweithyddion gyda thanwydd NSC ym Medi 2015 (Cyf 3). Roedd trefniadau ToR NSC a Chynigion Diogelwch Brys wedi eu haddasu wedi eu sefydlu mewn papur (Cyf 4) ac wedi eu hystyried yn y cyfarfod ar y cyd y safleoedd digomisiynu NSC yn Nhachwedd 2015 (Cyf 5). Fe ddarllenais Gyfeiriadau 2 i 5 i sicrhau bod aelodau'r NSC wedi eu hysbysu'n llawn, eu bod wedi trafod y cynigon a'u bod wedi cymeradwyo'r cynigion heb gafeat.

6. Fe adolygais drefniadau LC 13 cymeradwy presennol pob safle a'u cymharu gyda'r trefniadau arfaethedig y mae'r trwyddedai eisiau i'r ONR eu cymeradwyo (wedi eu hatodi i Cyf 2 a 4). Ar gyfer eglurder, fe restrir dogfennaeth safle trwyddedig perthnasol (a rhifau Offerynnau Trwyddedu cysylltiedig) yn Nhalau 1 a 2 ar gyfer fflyd Magnox.

7. Ar gyfer y 10 cyn safle adweithydd pŵer Magnox, canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r addasiadau yn ymwneud ag amnewid HSE gydag ONR a Magnox North Limited i Magnox Ltd. Ar gyfer y grŵp cyfan yma o safleoedd, mae Cyfarwyddwr Safle wedi ei newid i Gyfarwyddwr Cau, ar wahân i Oldbury a Wylfa ble mae Cyfarwyddwr Safle yn dal i gael ei ddefnyddio fel teitl rôl Asiant y Trwyddedai.

8. Mae Harwell a Winfrith wedi ailfformatio cylch gorchwyl y pwyllgor diogelwch niwclear yn sylweddol; fodd bynnag, ychydig o newid a fu i'r gofynion technegol. Mae gan y ddau safle yma nawr drefniadau model a gynigir gan Magnox Ltd; gyda'r rheolydd wedi ei enwi fel ONR, y trwyddedai yw Magnox Ltd a'r Asiant ar gyfer y Trwyddedai yw'r Cyfarwyddwr Cau.

9. Mae fy asesiad wedi cadarnhau bod cynigion LC 13 Magnox Limited yn gyson â chanllaw perthnasol yr ONR (Cyf 6).

4 MATERION YN CODI O WAITH YR ONR

10. Nid oedd y llythyr cais gwreiddiol a anfonwyd at yr ONR gan Magnox Limited yn bodloni disgwyliadau'r ONR. Roedd yn cynnwys nifer o wallau argraffyddol yn ymwneud â rhif trwydded safle un safle, amod trwyddedu a dogfen oedd yn cynnwys trefniadau a gymeradwywyd. Nid oedd y llythyr yn rhoi unrhyw fanylion parthed beth oedd wedi ei gyflwyno i unrhyw Bwyllgor Diogelwch Niwclear a gyda phwy y dylid cysylltu â nhw yn Magnox Limited os oedd angen gwybodaeth atodol. Arweiniodd hyn at drafodaethau er mwyn egluro'r sefyllfa (Cyf 7 i 11). O ganlyniad, cefais fanylion y cyfarfodydd NSC oedd wedi ystyried y cynigion (Cyf 3 a 5) a chadarnhad nad oedd safleoedd adweithyddion Magnox wedi ysgogi LC 13 Cynigion Diogelwch Brys wedi i wagio tanwydd ddod i ben ac i'r cyfnod digomisiynu gychwyn.

11. Fe nodais bod aelodau yn y cyfarfod NSC safleoedd â thanwydd (Cyf 3) wedi gofyn am newid gyfyngedig i'r ToR NSC arfaethedig (Cyf 2), fodd bynnag, roedd y newid yna mor fân fel i'r NSC gymeradwyo'r cynnig (Cyf 3). Yna fe ystyriwyd y trefniadau LC 13 parthed ToR NSC a Chynigion Diogelwch Brys (Cyf 4) mewn ail gyfarfod NSC a'u derbyn heb gafeat (Cyf 5).

12. Ni welodd fy asesiad o'r cynigion unrhyw broblem gyda'r ToR NSC arfaethedig gan fod y newidiadau yn arwynebol eu natur. Yn achos y Cynigion Diogelwch Brys, roeddwn yn teimlo bod y cynnig yn ddigonol, fodd bynnag, fe allai Magnox fod wedi gwneud y broses yn fwy cadarn trwy egluro pwy sy'n cymeradwyo defnydd o'r trefniadau Cynigion Diogelwch Brys ac a all y sawl sy'n derbyn y cyngor ei dderbyn yn llafar neu'n ysgrifenedig cyn bwrw ymlaen. Wedi nodi hyn, mae'r trwyddedai wedi datgan nad yw bellach yn defnyddio'r trefniadau hyn yn y rhan fwyaf o'i safleoedd (Cyf 11) a'i bod yn annhebygol iawn y bydd angen gwneud hynny unwaith y bydd y safleoedd yn digomisiynu. O ganlyniad, rwy'n casglu y byddai'n anghymesur i wneud i Magnox newid y Cynigion Diogelwch Brys arfaethedig a mynd trwy eu 'trefn briodol' eto.

13. Gan fod gan Magnox Limited 12 safle, bydd angen anfon Offeryn Trwyddedu (LI) ar bob un sy'n Cymeradwyo'r trefniadau LC 13 newydd sy'n gysylltiedig â ToR NSC (LC 13(3)). Bydd yr LIs yn safonol ac yn defnyddio templed F.2 (gweler Atodiad F neu Cyf 12). Mae pob safle ar wahân i Oldbury a Wylfa yn cynnwys trefniadau LC 13 newydd parthed Cynigion Diogelwch Brys (LC 13(12)), felly, bydd angen 10 LI ar gyfer y rhain. Unwaith eto mae angen LI safonol yn mhob achos, fel y gwelir yn nhempled F.4 (gweler Atodiad F neu Cyf 12). Ym mhob un o'r 22 achos, bydd y trefniadau LC 13 blaenorol yn cael eu tynnu'n ôl yn defnyddio pwerau LC 1(3)(a).

5 CASGLIADAU

14. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau fy asesiad o gynnig Magnox Limited i addasu'r Amod Trwyddedu 13 cymeradwy parthed ToR NSC (LC 13(3)) a Chynigion Diogelwch Brys (LC 13(12)). Ar gyfer y 10 cyn safle adweithyddion Magnox, mae'r newidiadau arfaethedig yn rhai mân; fawr mwy na chadw tŷ. Yn achos Harwell a Winfrith, mae'r trefniadau wedi eu hailysgrifennu i adlewyrchu model Magnox Limited ar gyfer trefniadau LC 13. Yn yr achos hwn, er bod fformat y trefniadau wedi newid yn sylweddol, mae'r cysyniad yn dal heb newid yn dechnegol. Felly, gallaf dderbyn y trefniadau arfaethedig ar draws fflyd Magnox.

15. I gloi, rwy'n fodlon fod Magnox Limited wedi mynd â'r cynigion hyn trwy ei 'drefn briodol' a bod y trefniadau LC 13(3) ac LC 13(12) diwygiedig canlynol yn bodloni canllaw'r ONR ar dderbynioldeb ac felly rwy'n argymell bod yr ONR yn cymeradwyo'r trefniadau newydd.

6 ARGYMHELLION

16. Mae adroddiad asesiad y prosiect yn argymell bod yr Arweinydd Cyflawni yn llofnodi'r adroddiad hwn i gadarnhau y derbynnir ei argymhellion.

17. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn argymell bod y Cyfarwyddwr Rhaglen yn llofnodi'r 22 Cymeradwyaeth drafft (nodir manylion safleoedd a rhifau LI yn Nhablau 1 a 2) sy'n ofynnol i roi trefniadau LC 13 cyson ar draws fflyd Magnox.

7 CYFEIRIADAU

1. Llythyr Magnox Ltd i'r ONR, dyddiedig 4 Ionawr 2016, parthed cymeradwyaeth o drefniadau LC 13(2) a 13(12) ar draws fflyd Magnox; Cyfeirnod Llythyr MXL32290R – TRIM 2016/14235
2. NP/SC 5290; Oldbury a Wylfa – Cylch Gorchwyl Diwygiedig y Pwyllgor Diogelwch Niwclear – Medi 2015 – TRIM 2015/400395
3. Cofnodion Cyfarfod ar y Cyd Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Oldbury a Wylfa Magnox Limited ar 30 Medi 2015 – TRIM 2015/392805
4. NP/SC 5289; GENERIG; Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Diogelwch Niwclear a Threfniadau ar gyfer Cynigion Diogelwch Brys – Tachwedd 2015 – TRIM 2015/442353
5. Cofnodion Cyfarfod ar y Cyd Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Magnox Limited Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Harwell, Hinkley Point A, Hunterston A, Sizewell A, Trawsfynydd a Winfrith a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2015 – TRIM 2015/441385
6. Canllaw SUT I yr ONR – Canllaw Archwiliad Technegol Diogelwch Niwclear: LC 13 Pwyllgor Diogelwch Niwclear - NS-INSP-GD-013 Adolygiad 3.
7. E-bost gan Gyfarwyddwr Technegol Magnox Limited i'r ONR – TRIM 2016/105771
8. E-bost gan yr ONR i Gyfarwyddwr Technegol Magnox Limited – TRIM 2016/105776
9. E-bost gan Gyfarwyddwr Technegol Magnox Limited i'r ONR – TRIM 2016/113364
10. E-bost gan yr ONR i Ysgrifennydd Technegol NSC Magnox Limited – TRIM 2016/113670
11. E-bost gan Ysgrifennydd Technegol NSC Magnox Limited i'r ONR – TRIM 2016/113676
12. Canllaw SUT I yr ONR – Paratoi a Chyhoeddi Offerynnau Trwyddedu - NS-PER-IN-001 Adolygiad 7.

Tabl 1 – Trefniadau LC 13(2)

Safle/Rhif NSL	ToR NSC a Gymeradwywyd	Rhif LI – Cymeradwyaeth Bresennol	ToR NSC Arfaethedig	Rhif LI – Cymeradwyaeth Newydd DRAFFT
Berkeley (Rhif 92)	BKA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Rhagfyr 2010	500 (22/12/10)	BKA/NSC/TOR Rhifyn 4 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	512
Bradwell (Rhif 93)	BWA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Rhagfyr 2010	500 (22/12/10)	BWA/NSC/TOR Rhifyn 4 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	513
Chapelcross (Rhif Sc. 15)	CXA/NSC/TOR Rhifyn 2 dyddiedig 1 Rhagfyr 2009	520 (31/03/10)	CXA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	538
Dungeness A (Rhif 94)	DNA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Rhagfyr 2010	500 (22/12/10)	DNA/NSC/TOR Rhifyn 4 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	513
Harwell (Rhif 101)	PRC 0213 Rhifyn 2 dyddiedig 26 Chwefror 2015	500 (30/03/15)	HARWELL/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	502
Hinkley Point A (Rhif 95A)	HPA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Rhagfyr 2010	500 (22/12/10)	HPA/NSC/TOR Rhifyn 4 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	509
Hunterston A (Rhif Sc. 16)	HNA/NSC/TOR Rhifyn 2 dyddiedig 1 Rhagfyr 2009	511 (31/03/10)	HNA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	524
Oldbury (Rhif 57A)	OBA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 1 Rhagfyr 2009	535 (31/03/10)	OLD/NSC/TOR Rhifyn 4 dyddiedig 1 Rhagfyr 2015	554
Sizewell A (Rhif 96)	SZA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Rhagfyr 2010	500 (22/12/10)	SZA/NSC/TOR Rhifyn 4 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	514
Trawsfynydd (Rhif 81)	TFA/NSC/TOR Rhifyn 2 dyddiedig 1 Rhagfyr 2009	516 (31/03/10)	TFA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	530
Winfrith (rhif 100)	PRC 0213 Rhifyn 2 dyddiedig 26 Chwefror 2015	500 (30/03/15)	WINFRITH/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 16 Tachwedd 2015	502
Wylfa (Rhif 58A)	WYA/NSC/TOR Rhifyn 3 dyddiedig 1 Rhagfyr 2009	542 (31/03/10)	WYA/NSC/TOR Rhifyn 4 dyddiedig 1 Rhagfyr 2015	568

Tabl 2 – Trefniadau LC 13(11)

Safle/Rhif NSL	Cynnig Diogelwch Brys a Gymeradwywyd	Rhif LI – Cymeradwyaeth Bresennol	Cynnig Diogelwch Brys Arfaethedig	Rhif LI – Cymeradwyaeth Newydd DRAFFT
Berkeley (Rhif 92)	BKA/NSC/USP(2) Ion'11	503 (21/07/11)	BKA/NSC/USP(3) Tach'15	513
Bradwell (Rhif 93)	BWA/NSC/USP(2) Ion'11	502 (21/07/11)	BWA/NSC/USP(3) Tach'15	514
Chapelcross (Rhif Sc. 15)	CXA/NSC/USP(1) Rhag'09	521 (31/03/10)	CXA/NSC/USP(2) Tach'15	539
Dungeness A (Rhif 94)	DNA/NSC/USP(2) Ion'11	502 (21/07/11)	DNA/NSC/USP(3) Tach'15	514
Harwell (Rhif 101)	PRC 0213 Rhifyn 1; Mai'15	501 (23/10/15)	HARWELL/NSC/USP(2) Tach'15	503
Hinkley Point A (Rhif 95A)	HPA/NSC/USP(2) Ion'11	502 (21/07/11)	HPA/NSC/USP(3) Tach'15	510
Hunterston A (Rhif Sc.	HNA/NSC/USP(1) Rhag'09	510 (31/03/10)	HNA/NSC/USP(2) Tach'15	525

16)				
Sizewell A (Rhif 96)	SZA/NSC/USP(2) Ion'11	502 (21/07/11)	SZA/NSC/USP(3) Tach'15	515
Trawsfynydd (Rhif 81)	TFA/NSC/USP(1) Rhag'09	517 (31/03/10)	TFA/NSC/USP(2) Tach'15	531
Winfrith (rhif 100)	PRC 0213 Rhifyn 1; Mai'15	501 (23/10/15)	WINFRITH/NSC/USP(2) Nov'15	503